# Y Pwyllgor Deisebau

## PET(3)-08-08 (p1): 22 Mai 2008

### P-03-113 Profio ar gyfer ganser y brostad

**Geiriad y Deiseb**

Mae'r Gymdeithas Ymchwil Canser Ryngwladol yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i newid polisi'r GIG i sicrhau bod y prawf PSA ar gael os gofynnir, i bob dyn dros 50, a helpu i arbed mwy na 10,000 o ddynion sy'n marw o ganser y brostad bob blwyddyn.

Un o'r pethau sydd gan ddynion America nad oes gan ddynion Prydain yw mynediad rheolaidd at y prawf PSA, prawf gwaed sy'n cael ei wneud gan Feddygon Teulu, a all wneud diagnosis o ganser y brostad.  Er bod rhai anfanteision pwysig i'r prawf, mae tystiolaeth ar draws y byd yn dangos bod defnydd ehangach o'r prawf PSA yn gysylltiedig â  chyfraddau uwch o bobl yn goroesi gyda chanser y brostad.  Yn y DU nid oes gan ddynion sy'n pryderu am eu prostad hawl awtomatig i'r prawf PSA.  Mae cyfradd y rhai sy'n goroesi am bum mlynedd gyda chanser y brostad yn yr UDA yn 98.5%, o'i chymharu â dim ond 70% yma.

**Cefndir**

Derbyniwyd y ddeiseb hon gan Geraldine Long o AICR ar y 21 Chwefror 2008

Mae'r sefydliad yn 'cyllid ymchwil ymyl dorri i mewn i achosion canser. Yn y 27 blwyddyn ddiwethaf mae AICR wedi cefnogi nifer fawr o brosiectau o gwmpas y byd'

Mae Geraldine Long wedi darparu ragor o wybodaeth, sef fod Llywodraeth Prydain ddim yn ystyried darparu prawf PSA i bawb ar alw ond yn lle, yn gadael y penderfyniad i ymarferwr unigol.

Bu'r Pwyllgor yn ystyried y ddeiseb hon am y tro cyntaf ar 10 Ebrill 2008. Cytunodd y Pwyllgor i ofyn i'r  Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol am bolisi Llywodraeth Cynulliad Cymru ar sgrinio ar gyfer canser y brostad.

Ymatebodd y Gweinidog ar 06 Mai 2008, gan nodi bod y Pwyllgor Sgrinio Cenedlaethol (NSC) yn cynghori pedair gwlad y Du ar bob agwedd ar y polisi sgrinio.  Mae'n nodi ymhellach:

'Wrth ystyried rhaglenni sgrinio'r boblogaeth, mae'n rhaid asesu'r lles a'r niwed yn ofalus, a dylai'r lles bob amser orbwyso'r niwed.  Mae'n rhaid i mi gael fy arwain gan argymhellion y Pwyllgor Sgrinio Cenedlaethol sy'n eglur na ddylai'r GIG ddarparu gwasanaeth sgrinio'r boblogaeth ar gyfer canser y brostad, gan gynnwys defnyddio PSA fel prawf sgrinio, ac ni ddylai gael ei gynnig i'r cyhoedd nes y bydd tystiolaeth newydd o dechnoleg sgrinio effeithiol ar gyfer canser y brostad.' [Ychwanegwyd print trwm er mwyn pwysleisio]

Mae'r llythyr hwn yn amgaeëdig fel PET(3)-08-08 Papur 1A.

**Gwasanaeth y Pwyllgorau**

**Mai 2008**